

## Diweddariad Gwirfoddolwyr - Medi 2020

Fel y gwyddoch, oherwydd y pandemig Coronafirws parhaus a Chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru i weithio gartref os yw hynny'n bosibl, mae'r rhan fwyaf o wirfoddoli yn dal i ddigwydd mewn ffordd wahanol. Mae yna ychydig o gyfleoedd awyr agored a all barhau, ac mae rhai siopau elusennol wedi llwyddo i roi'r mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith ac wedi ailagor. Mae'r mwyafrif o gyfleoedd eraill sy'n gallu gweithredu ar hyn o bryd yn cael eu cynnig o bell - gan ddefnyddio cyswllt ffôn ac ar-lein.

Wrth i wirfoddoli ffurfiol ailddechrau'n raddol ledled y sir mae yna ychydig o ddarnau o newyddion y mae angen i mi eu rhannu gyda chi. Os hoffech chi BEIDIO â derbyn yr e-byst hyn yn y dyfodol, rhowch wybod i ni.

Byddwn yn cynnal Arolwg Gwirfoddolwyr yn ystod yr wythnosau nesaf, er mwyn darganfod beth yw eich profiad o wirfoddoli yn ystod y cyfnod cloi, ac i adeiladu darlun o'r gwaith sy'n digwydd ledled y sir. Mae ysgrifennu arolwg o'r fath yn anodd pan fydd y sefyllfa'n newid yn wythnosol (weithiau bob dydd), ond pan fyddwn wedi anfon yr arolwg allan, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd ychydig funudau i ateb y cwestiynau.

Isod fe welwch wybodaeth a dolenni i Gyfleoedd Gwirfoddoli sydd naill ai wedi cychwyn neu ailddechrau yn ddiweddar, ar ôl cael eu seibio yn ystod Covid. Rydym yn annog sefydliadau i bostio eu cyfleoedd ar Wirfoddoli Cymru, felly mae'n werth gwirio'n rheolaidd os ydych chi'n chwilio am leoliad gwirfoddoli.

### Ymddiriedolwyr:

Mae hon yn fath arbennig o rôl gwirfoddol - nid yw at ddant pawb ac yn aml mae'r rolau hyn yn fwyaf addas ar gyfer rhywun sydd naill ai â sgil benodol, berthnasol (ee cyllid, trysorydd), neu efallai bod ganddo angerdd arbennig am waith y sefydliad ac awydd i helpu i yrru'r sefydliad yn ei flaen fel aelod o fwrdd yr ymddiriedolwyr, neu yn ddelfrydol wrth gwrs byddai gennych chi'r ddau! FELLY, os credwch fod gennych yr hyn sydd ei angen i fod yn aelod o fwrdd ymddiriedolwyr, neu os ydych chi'n adnabod rhywun felly, edrychwch ar y dolenni canlynol:

- Carmarthen Shopmobility – Mae angen ymddiriedolwyr i sicrhau llwyddiant parhaus y gwasanaeth hanfodol hwn
- Llest Horse & Pony Trust – Mae angen ymddiriedolwyr sy'n poeni am les ceffylau
- Prime Cymru – Mae angen ymddiriedolwyr i hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd Prime Cymru

### Cyfleoedd Gwirfoddoli:

- Mae Cyngor Cymunedol Llanedi yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda'u rhaglen mapio cymunedol a chofrestr asedau - Oes gennych chi sgiliau cyfrifiadurol da, brwdfrydedd dros weithio yn y gymuned a diddordeb mewn casglu data ac ymchwil? Efallai mai dyma'r rôl i chi.
- Royal Voluntary Service Os ydych chi'n hoffi gyrru, a gennych beth amser i'w sbario, yna mae gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol rolau ledled y Sir.
- Mae Greyhound Rescue Wales yn chwilio am Wirfoddolwr Adnoddau Dynol - a oes gennych gefndir mewn AD ac amser i'w sbario?
- Gan gadw at y thema "cwn", mae West Wales Poundies Dog Rescue yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu yn eu siop elusennol yn Rhydaman.
- Mae Age Cymru Dyfed yn chwilio am wirfoddolwyr i ymuno â'u gwasanaeth cyfeillio ffôn Befriending Life Links. Mae'r rôl hon yn gweithio o gartref, felly gallwch ymuno â'r prosiect ble bynnag rydych chi'n byw.
- Er bod hwn yn rhestr hyn, mae'r prosiect hwn yn Llyfrgell Llanelli yn adnewyddu ei ymdrechion i recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Mae 'Stordy Digidol' yn un elfen o brosiect Great Place Llanelli, prosiect sy'n ceisio ennyn diddordeb y gymuned â threftadaeth a diwylliant cyfoethog Llanelli. Y gobaith yw y gall gwirfoddolwyr ddechrau trwy ddefnyddio sgiliau presennol gyda'r nod o ddatblygu sgiliau ymhellach, er mwyn dogfennu cynnwys treftadaeth gymunedol, a datblygu sgiliau mewn digideiddio.
- Yn olaf, mae gan CBSA, y Ganolfan Adeiladu Gweithredu Cymdeithasol, brosiect o'r enw Be the Change, efallai y bydd hynny'n gallu cefnogi pobl iau i gychwyn ar eu teithiau gwirfoddol. Cysylltwch â nhw i ddarganfod mwy.